Roedd tri digwyddiad o bwys hanesyddol i'w dathlu yng Nghyfarfod Blynyddol cyntaf MAECymru ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 5ed 2016.

· Yr aelodaeth bellach yn 70 ac ar gynnydd.

· Parodd ethol un o'n haelodau y Parch Ganon Jo Penberthy yn Esgob Tyddewi gryn ddathlu.

· Soniwyd am ddathliadau 20ed penblwydd ordeinio gwragedd yn offeiriaid yn yr Eglwys yng Nghymru ar Ystwyll 2017

Ymhlith yr uchafbwyntiau ym mlwyddyn gyntaf MAE yr oedd cyfraniad ysbrydoledig gan y Gwir Barchedig Libby Lane, Esgob Stockport (y wraig gyntaf i'w chysegru'n Esgob yn Eglwys Loegr) yn ystod cynhadledd gyntaf MAE ym mis Mai 2016; cyfarfodydd esgobaethol i drafod sut i gefnogi gweinidogath gwragedd ac sut i drin rhai o'r materion dadleuol sydd ar ol. Sefydlu grwpiau MAECymru, gan gynnwys lansio cangen yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu mewn Eucharist yn yr Eglwys Gadeiriol wedi ei weinyddu gan yr Hybarch Peggy Jackson, Archddiacon Llandåf.

Yr oedd llawenydd arbennig o gael y Parchedig Ganon Jo Penberthy gyda ni ar ddiwedd beth fu iddi hi yn gorwynt o wythnos. Wrth siarad å MAECymru am ei hethol i fod yn Esgob nesaf Tyddewi atgoffodd y Canon Jo ei chwiorydd a'i brodyr i ddal i siarad amdani fel Jo gan ychwanegu "Mae pobl yn mynnu mod i'n arloesi, ond dydw i ddim: cannwyll arr y deisen ydw i, a ni i gyd yw'r deisen!"